# UNED 3 – Arholiad Llafar (Tasg pâr/grŵp)

**Llafaredd – 20% (40 marc – cynnwys 20/ mynegiant 20)**
**Darllen – 5% (10 marc – cynnwys (dealltwriaeth) 8 /mynegiant 2)**

## Y dasg lafar Pâr/Grŵp

**Haenau uwch a sylfaenol**

**Pâr neu Grŵp o 3**

**Pâr G-D 4-5 munud / C-A* 6-7 munud**
**Grŵp G-D 6-7 munud / C-A* 8-10 munud**

**Gall yr athro / athrawes gyfrannu a symbylu yn ôl yr angen.**

**Bydd y dasg lafar yn seiliedig ar destun/destunau allan o Gyd-destun B:**

- Amser hamdden
- Alcohol, cyffuriau ac ysmygu
- Yr amgylchedd
- Cadw'n iach a heini
- Teulu a ffrindiau
- Y cartref
- Penwythnos
- Y cyfryngau
- Technoleg
- Dathlu
- Profiadau'r ysgol

## Y dasg ddarllen

**Haenau uwch a sylfaenol**

**Dangos dealltwriaeth o gynnwys darn/au darllen symbylus y dasg lafar h.y. cam (i) y dasg lafar.**

**HAEN UWCH**

**TASG B – Profiad Gwaith**

Gyda'ch partner/partneriaid rhaid i chi:
*With your partner/partners you must:*

(i) Drafod sylwadau'r bobl am y testun. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â nhw? Pam?
D*iscuss the comments made by the people about the topic. Do you agree or disagree with them? Why?*

(ii) Mynegi eich barn chi am y testun. Ydych chi'n meddwl bod profiad gwaith yn syniad da? Cofiwch roi rhesymau.
*Express your opinion on the topic. Do you think that work experience is a good idea. Remember to give reasons.*

(iii) Sôn am brofiadau gwaith eraill mae pobl ifanc yn eu cael e.e. gwaith rhan-amser, gwaith penwythnos, gwaith gwyliau, gwaith gwirfoddol. Beth ydych chi wedi ei wneud?
*Talk about other experiences of work that young people get e.g. part-time work, weekend work, holiday work, voluntary work. What have you done?*

(iv) Crynhoi'r drafodaeth / dod i gasgliad.
*Close the discussion / come to a conclusion.*

| **Marciau darllen** | **Marciau llafar** |
|---|---|
| **Cynnwys (Dangos dealltwriaeth) – hyd at 8 marc** | **Cynnwys – hyd at 20 marc** |
| **Mynegiant – hyd at 2 farc** | **Mynegiant – hyd at 20 marc** |

**(Gweler y cynlluniau marcio)**

**DARLLEN**
**Awgrymir bod ymgeiswyr gradd C/D yn darllen DARN C yn unig a gellir gwobrwyo hyd at 5 marc am y cynnwys a 2 farc am y mynegiant.**

**TASG B – Profiad Gwaith**

**Siân Morgan**

**DARN C**

Es i ar brofiad gwaith i ysgol gynradd Pantycwm.
Roedd e'n brofiad gwych. Roeddwn i wrth fy modd yn gweithio gyda'r plant. Roedd rhaid i fi ddechrau bob bore am chwarter i naw a gorffen am dri o'r gloch. Roeddwn i'n helpu'r plant i ddarllen ac ysgrifennu ond y peth gorau oedd gwneud chwaraeon gyda nhw.
Roedd y profiad yn ddefnyddiol iawn achos dw i'n siwr nawr 'mod i eisiau bod yn athrawes ar ôl gadael yr ysgol.

**Marc Cynnwys Darllen 5**

**Sung Ma**

**DARN CH**

Es i ar brofiad gwaith i archfarchnad Tesco. Roedd e'n wastraff amser. Roedd y gwaith yn ddiflas iawn. Bob dydd roedd rhaid i fi gario bocsys, cario bocsys a chario bocsys. Wedyn roedd rhaid i fi lenwi'r silffoedd – caniau moron, caniau ffa, caniau pys, caniau spaghetti. Dydw i ddim eisiau gweld yr un can eto. Ac, wrth gwrs, roedd rhaid i fi fopio'r llawr pan oedd rhywun yn torri poteli saws, potiau jam a phethau eraill – ych a fi. Mae ysgol yn ddiflas ond mae'n well na phrofiad gwaith.

**Marc Cynnwys Darllen 6-7**

**Esyllt Holmes**

**DARN D**

Ar brofiad gwaith es i i swyddfa'r cyngor yn y dref. Bues i yno am wythnos gyfan. Roeddwn i'n nerfus iawn ar y bore cyntaf ond roeddwn i'n iawn ar ôl awr neu ddwy.
Dysgais i lawer o sgiliau newydd – gwaith swyddfa, ffeilio, ateb y ffôn, llungopio, cadw cofnodion ac ati. Wrth gwrs, roedd rhaid i fi wneud coffi i bawb bob dydd.
Un dydd es i i gyfarfod y Cabinet. Roedd e'n ddiddorol iawn. Roedden nhw'n siarad am broblem gor-dewdra ymhlith disgyblion ac am sut i wella cinio'r ysgolion. Mwynheuais i'r profiad gwaith ond dydw i ddim am weithio mewn swyddfa ar ôl gadael yr ysgol.

**Marc Cynnwys Darllen 8**

**HAEN SYLFAENOL**

**TASG B – Profiad Gwaith**

Gyda'ch partner/partneriaid rhaid i chi:
*With your partner/partners you must:*

(i) Drafod beth mae'r bobl yn ei ddweud am eu profiad gwaith. Ydych chi'n hoffi'r math o waith? Pam?
*Discuss what the people say about their work experience. Do you like the kind of work? Why?*

(ii) Siarad am y pethau roeddech chi'n hoffi am eich profiad gwaith chi. Pam?
*Talk about what you liked about your work experience. Why?*

(iii) Siarad am y pethau doeddech chi ddim yn hoffi. Pam?
*Talk about what you didn't like. Why?*

(iv) Siarad am brofiad o waith rydych wedi ei wneud tu allan i oriau ysgol e.e. swydd ran-amser.
*Talk about some experience of work you have had outside school hours e.g. a part- time job.*

| **Marciau darllen** | **Marciau llafar** |
|---|---|
| **Cynnwys (Dangos dealltwriaeth) – hyd at 5 marc** | **Cynnwys – hyd at 14 marc** |
| **Mynegiant – hyd at 2 farc** | **Mynegiant – hyd at 14 marc** |

**(Gweler y cynlluniau marcio)**

**DARLLEN**
**Awgrymir bod ymgeiswyr gradd F/G yn darllen DARN A yn unig a gellir gwobrwyo hyd at 2 farc am y cynnwys a 2 farc am y mynegiant.**





**Hamilton Lewis**

**DARN A**

**Marc Cynnwys Darllen 1-2**

Es i ar brofiad gwaith i garej J.J.Motors.
Dw i'n hoffi ceir. Dw i eisiau bod yn fecanic.
Dw i'n hoffi Fformiwla 1 ar y teledu. Dw i'n hoffi *Ralio* ar S4C hefyd.
Roedd y profiad gwaith yn wych

**Joe Alun**

**DARN B**

**Marc Cynnwys Darllen 3-4**

Es i ar brofiad gwaith i'r ganolfan hamdden wrth yr ysgol.
Bob bore roeddwn i'n gofalu am y plant bach yn y pwll nofio.
Roedd hyn ychydig yn ddiflas.
Roedd y prynhawn yn well – chwarae badminton gyda disgyblion o'r ysgol uwchradd.
Hoffwn i weithio yn y ganolfan hamdden ar ôl gadael yr ysgol achos dw i'n hoff iawn o chwaraeon.

**Siân Morgan**

**DARN C**

**Marc Cynnwys Darllen 5**

Es i ar brofiad gwaith i ysgol gynradd Pantycwm.
Roedd e'n brofiad gwych. Roeddwn i wrth fy modd yn gweithio gyda'r plant. Roedd rhaid i fi ddechrau bob bore am chwarter i naw a gorffen am dri o'r gloch. Roeddwn i'n helpu'r plant i ddarllen ac ysgrifennu ond y peth gorau oedd gwneud chwaraeon gyda nhw. Roedd y profiad yn ddefnyddiol iawn achos dw i'n siwr nawr 'mod i eisiau bod yn athrawes ar ôl gadael yr ysgol.